## ATODLEN 4

Rheoliad 28

## LLADD ANIFEILIAID AC EITHRIO'R RHAI Y MAE'R RHEOLIAD UE YN GYMWYS IDDYNT

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon—

(a) ystyr "anifail" ("*animal*") yw—

(i) ymlusgiaid ac amffibiaid;

(ii) infertebratau; neu

(iii) dofednod, cwningod neu ysgyfarnogod a leddir yn rhywle heblaw mewn lladd-dy, gan eu perchennog ar gyfer eu bwyta gartref yn breifat gan y perchennog; a

(b) mae i'r termau "lladd", dofednod", "ffrwyno" a "stynio", yn eu trefn, yr un ystyron a roddir i'r termau "killing", "poultry", "restraint" a "stunning" yn y Rheoliad UE.

### Cwmpas

**2.** Yn ddarostyngedig i baragraff 3, mae'r Atodlen hon yn gymwys i ladd anifeiliaid sy'n cael eu bridio neu'u cadw i gynhyrchu cig, crwyn neu gynhyrchion eraill.

### Esemptiadau

**3.** Nid yw'r Atodlen hon yn gymwys i anifeiliaid a leddir—

(a) o ganlyniad i unrhyw weithred a wneir yn gyfreithlon o dan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. ;

(b) yn ystod gweithgareddau hela neu bysgota hamdden; neu

(c) yn ystod digwyddiadau chwaraeon.

### Lladd heb beri dioddefaint diangen

**4.**—(1) Ni chaiff neb sy'n ymwneud â ffrwyno, stynio neu ladd anifail—

(a) achosi unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw; neu

(b) caniatáu i'r anifail hwnnw brofi unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint diangen.

(2) Ni chaiff neb ymwneud â ffrwyno, stynio neu ladd anifail onid oes gan y person hwnnw'r wybodaeth a'r medrusrwydd angenrheidiol i gyflawni'r gweithrediadau hynny heb beri dioddefaint diangen ac yn effeithlon.

### Gwaedu dofednod, cwningod neu ysgyfarnogod ar gyfer eu bwyta gartref yn breifat

**5.** Rhaid i ddofednod, cwningod neu ysgyfarnogod a waedir gan eu perchennog y tu allan i ladd-dy, ar gyfer eu bwyta gartref yn breifat gan y perchennog—

(a) cael eu stynio cyn eu gwaedu yn unol â'r dulliau a'r gofynion penodol ym Mhenodau I a II o Atodiad I, a phan fo'n briodol, Rhan 5 o Atodlen 2; a

(b) cael eu gwaedu yn ddi-oed ar ôl eu stynio.